




# Adroddiad Rheoli Ystadau Blynyddol

# 2020/21








PRIFYSGOL Glyndŵr Wrecsam

Wrexham Glyndŵr UNIVERSITY

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| Yr Ystâd Weithredol | 4 |
| Ffeithiau a Ffigurau Allweddol | 5 |
| Cynnal a Chadw'r Ystâd | 7 |
| Cyflwr yr Ystâd | 8 |
| Prosiectau 20/21 Campws 2025 | 9 |
| Gweithgareddau Cydymffurfio Rheoliadol | 12 |
| Effaith Covid 19 | 13 |
| Ynni a Chynaliadwyedd | 14 |
| Meincnodi Data Ystadau | 20 |

# Rhagair

## Rwy’n falch iawn o gyhoeddi’r Adroddiad Rheoli Ystadau Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020/21.

Yn gyntaf i gyd, ar lefel bersonol, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i gydweithwyr ledled y Gyfadran Rheoli’r Campws ac Ystadau am eu gwaith caled a’u cefnogaeth yn ystod 12 mis heriol, ond cynhyrchiol hefyd.

Er i lawer o gydweithwyr a myfyrwyr symud i fyd gwaith/dysgu rhithwir, a setlo yn hynny o beth, ni fu erioed cymaint o alw am ein cydweithwyr Ystadau! Roedd eu presenoldeb parhaus ar y campws yn ein galluogi i sicrhau bod ein hadeiladau Prifysgol yn dal i gydymffurfio yn gyfreithlon a chael eu cynnal a chadw yn llawn, wrth hefyd sicrhau diogelwch a lles ein preswylwyr sy’n byw ar y campws. Maent hefyd wedi bod yn hanfodol wrth gefnogi’r GIG drwy eu cymorth parhaus a chefnogaeth gyda’r ganolfan frechu. Mae’r ymroddiad i’w dyletswyddau wedi bod yn rhagorol; mae’n fraint ac yn bleser cael gweithio gyda thîm mor wych o bobl.

Ochr yn ochr â’r gweithrediadau bob dydd hyn, mae’r tîm, dan arweinyddiaeth Mike Hamer, Pennaeth Ystadau, hefyd wedi cynhyrchu rhai mannau dysgu a gweithio arbenigol newydd drwy gyllid cyfalaf o £750,000 gan HEFCW. Roedd y tîm hefyd yn chwarae rhan hanfodol o ran gwario dros £1.6m ar brosiectau sy’n cefnogi’r agenda Datgarboneiddio, eto diolch i gyllid canolog gan Lywodraeth Cymru. Gyda dros £20m eisoes wedi’i wario ar Campws 2025 yn ystod tair blynedd gyntaf ei gyflawniad, rydym yn gwneud cynnydd gwych o ran cyflawni prosiectau allweddol sy’n cael effaith fawr ar brofiad y myfyrwyr a’r amgylchedd dysgu.


Dros y deuddeg mis nesaf, gallwch ddisgwyl gweld rhagor o ffocws ar gynaliadwyedd a datgarboneiddio. Mae newid hinsawdd yn effeithio bob agwedd ar y byd rydyn ni’n byw ynddo, ac mae’n debyg bod ein hymateb ni yn hyn o beth yn un o’r heriau mwyaf y mae’r byd yn eu hwynebu heddiw. Yn hytrach na meddwl am hyn fel risg, dyma gyfle i feddwl am ddatrysiadau, a bydd y Gyfadran Rheoli Ystadau a’r Campws yn parhau i fod yn gatalydd i’n helpu i ail-feddwl am y ffordd rydyn ni’n cynnal busnes ac yn llywio ein prosiectau.

Gobeithio y byddwch chi’n mwynhau darllen yr Adroddiad Blynyddol hwn, sy’n rhoi rhagor o fewnwelediad i chi ar rai o’r llwyddiannau a’r cynnydd sydd wedi mynd rhagddo, ac edrychaf ymlaen at adeiladu ar y llwyddiannau hyn yn y flwyddyn i ddod.

Diolch i chi unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.

**Lynda Powell**
Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau


# Yr Ystâd Weithredol



**27 Adeilad**



**2 Adeilad Rhestredig**



**Arwynebedd Llawr Mewnol Gros yr Ystâd: 59,582m2**



**Cyfanswm y berchnogaeth tir: 51 hectar**

**Cyfanswm Gwerth - £ 68.5m**

# Ffeithiau a ffigurau allweddol

**515**
o ymholiadau i'r ddesg gymorth wedi'u prosesu

**486** tasg wedi'u cyflawni gan Dîm Gwasanaethau Adeiladau PGW

**98**
o ddigwyddiadau a adroddwyd wedi'u datrys gan Staff Diogelwch

**666**
o archebion gwaith wedi'u cyflwyno i gyflenwyr allanol

**£76**
Cyfanswm costau eiddo fesul metr² o'r GIA

**123** tunnell o wastraff wedi'u casglu ac ailgylchu neu eu hail-ddefnyddio, gan arwain at 99% o'r gwastraff yn osgoi safle tirlenwi

# Ffeithiau a Ffigurau Allweddol (parhad)

Mae PGW yn defnyddio **100%** trydan adnewyddadwy

Lleihad o **10%** mewn allyriadau carbon bob blwyddyn

**£42k**
o waith trydan wedi'i gyflawni yn dilyn archwiliadau rheoliadol

**Cyfanswm nifer y staff 25**
yn rhan o Wasanaethau Ystadau ac Adeiladau ar 31 Gorffennaf 2021

| 32% | 52% | 8% | 8% |
|---|---|---|---|
| Rheoli Cyfleusterau | Rheoli Ystadau | Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd | Gweinyddol |

Cyllideb (ar wahân i gyflogau) oddeutu: **£2.8M**



Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | Wrexham Glyndŵr University

# Cynnal a Chadw'r Ystâd

## Gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau (FM) Caled

Roedd cyfanswm y gwariant o ran Cynnal a Chadw Adeiladau a Pheirianneg a gafaelwyd yn allanol (heb gynnwys prosiectau cyfalaf) ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020/21 oddeutu £730,000. Roedd hyn yn cynnwys:

- £225k - Rhaglen Cynnal a Chadw ac Adnewyddu a Gynlluniwyd
- £412k - Contractau Gwasanaeth a gwaith trwsio gan gynnwys gofynion statudol a rheoliadol.
- £93k - Cynnal a Chadw Ymatebol

## Gwasanaethau FM Meddal

Roedd cyfanswm y gwariant o ran gwasanaethau FM meddal a gafaelwyd yn allanol oddeutu £482,000. Roedd hyn yn cynnwys:

- £395k - Gwasanaethau glanhau a deunyddiau traul ar gyfer mesurau diogelwch Covid
- £31k - Casglu Sbwriel/Rheoli Gwastraff
- £56k - Cynnal a Chadw Tiroedd

## Defnydd Ynni a Dŵr

Roedd cyfanswm y gwariant ar Drydan, Nwy a Gwastraff (gan gynnwys Optic) oddeutu £1,072M. Roedd hyn yn cynnwys:

- £769k - Trydan
- £240k - Nwy
- £63k - Dŵr a Charthffosiaeth

## Ardrethi Busnes Annomestig

- £367,415 - Ardrethi busnes (gan gynnwys Optic) a dalwyd yn ystod 2020/21

# Cyflwr yr Ystâd


Pennwyd gwaelodlin cyflwr adeiladau wrth ddatblygu Strategaeth Campws 2025 gan ddefnyddio data o Gofnod Rheoli Ystadau (EMR) 2016/17. Cydnabuwyd fod gan yr Ystâd groniad sylweddol o waith cynnal a chadw i'w wneud yn y tymor canolig a fyddai angen llawer o gyllid.

Bellach, mae gwaith gwella targedig yn eu 4ydd blynedd a thrwy ddyrannu cyllid yn barhaus, mae cyflwr cyffredinol yr ystâd yn gwella'n gyson bob blwyddyn. Fel y'i nodir yn Ffig. 1, nododd y waelodlin 16/17 nad oedd unrhyw ran o'r Ystâd yng nghyflwr band A.

Erbyn 2020/21, mae'n dda gweld fod cynnydd bychan o ran canran a bod 460m2 arall o'r Ystâd bellach yn cael ei hystyried yn safon uchel iawn (band A) yn dilyn adnewyddu ardaloedd targedig yn llawn. Yn ogystal â hyn, mae oddeutu 500m2 o ofod arall wedi symud i fand B yn dilyn ymyriadau llai a chymesur.

Rhagwelir y bydd y gwelliannau hyn yn parhau yn dilyn llwyddo i gael cyllid grant gan HEFCW ar gyfer 2021/22, cyllid refeniw gweithredol yn 2021/2022 ac ail-fuddsoddi derbynebau cyfalaf a gynhyrchwyd o werthiannau tir strategol.

**Ffig. 1**



# Prosiectau
# Campws 2025
# 20/21

Cynhaliwyd nifer o brosiectau yn ystod 2020/21 yn rhan o'r buddsoddiad a'r gwelliannau parhaus yn unol â strategaeth Campws 2025 a'r cynllun camau.





### Mannau addysgu Plas Coch (Coridor B PH 2) – £450K

Cwblhau ail gam adnewyddu, gan gynnwys creu mannau addysgu arbenigol a gofod dysgu cymdeithasol ar hyd ochr ddeheuol Coridor B. Mae'r cynllun yn cynnwys Llys Crybwyll, ystafell Marchnata a Busnes ddeinamig ac Ystafell Gyfarfod.





### Hwb Byw (PH1) – Creu man Gweithio Ystwyth - £200K

Cam 1 yr Hwb Byw yw gosod mesanîn yn y Labordy Perfformiad Dynol gynt. Bydd yr ardal mesanîn yn cynnwys 32 o fannau gweithio ystwyth ar y llawr cyntaf. Bydd adnewyddu'r llawr gwaelod i'r dyfodol yn creu rhagor o fannau gweithio ystwyth ochr yn ochr ag ystafelloedd cyfarfod bach a lolfa gymdeithasol.

# Prosiectau Campws 2025 20/21 (parhad)






### Stryd Regent - Creu Gofod Cyhoeddus, Gofod Swyddfa Ystwyth, Gwaith Trwsio Strwythurol ac adnewyddu'r Gwres - £550k

Bydd creu Gofod Cyhoeddus newydd yn nhu blaen y Campws yn rhoi mynediad uniongyrchol i'r cyhoedd i fynedfa fywiog sy'n cynnwys Caffi, Oriel a siop Gelf. Mae'r gofod swyddfa ystwyth ar gyfer staff wedi cael ei drawsnewid o gymharu â'r hen amgylchedd gwaith. Yn ogystal, mae gwaith trwsio strwythurol a diweddaru'r system wres wedi trawsnewid yr adeilad hwn, sy'n boblogaidd iawn. Mae bellach ar ei newydd wedd!





### Campws Llaneurgain - Ystafell Addysgu ar y Mesanîn, Balconi Arsylwi a Lolfa i Fyfyrwyr - oddeutu £100k

Mae gwaith parhaus i gefnogi'r twf mewn Nyrsio Milfeddygol ac astudiaethau anifeiliaid cysylltiedig wedi arwain at gwblhau Cam 2 o drawsnewidiad y neuadd chwaraeon. Mae hyn wedi creu ystafell ddosbarth/gofod cyfarfod hyblyg a modern newydd, yn ogystal â balconi gwylio. Gan gydnabod yr angen i ddarparu rhagor o adnoddau a gofod cymdeithasol ar gyfer carfan gynyddol, mae hefyd wedi bod yn braf gweld llyfrgell i fyfyrwyr wedi'i adnewyddu a lolfa i fyfyrwyr sy'n dychwelyd i Laneurgain.

# Ffigurau Allweddol Campws 2025 (ar sail 2021/22*)




**£9.5M**
o gyfalaf o werthu tir

**Gwariant Cronnus ar Adnewyddu**

Campws Plas Coch **£2.95m**

Campws Stryd Regent **£500k**

Campws Llaneurgain **£280k**

Campws Llanelwy **£85k**

Cyfanswm y Buddsoddiad ar Campws 2025 - **£20.366m**

*(Gwerthiannau a gwblhawyd ym mis Medi 2021)

# Gweithgareddau cydymffurfio rheoliadol

## Yr Ystâd Gyffredinol

- Mae gwaith atal asbestos wedi mynd rhagddo mewn sawl lleoliad yn rhan o'r broses o adnewyddu adeiladau.

- Cwblhawyd gwaith trydan adferol a gwelliannau diogelwch o ganlyniad i ail-amodau a gyflwynwyd yn dilyn archwiliadau bob pum mlynedd.

- Mae pob Asesiad Risg Tân wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru.

- Mae gwaith i gydymffurfio â Rheoliad 14 Gwydriad wedi parhau.

- Mae gwaith monitro hylendid dŵr a chydymffurfiaeth wedi parhau yn unol ag arferion y diwydiant.

## Llety i Fyfyrwyr

Mae llety Pentref Myfyrwyr Wrecsam yn dal i gael sylw agos o ran ei systemau diogelwch tân.

Mae'r system taenellwr dŵr wedi cael ei thrin, a'r pympiau cylchredeg wedi cael eu diweddaru, ac felly mae'n gweithio'n iawn.

Mae'r system awyru mwg clyfar, sy'n gysylltiedig â'r paneli larymau tân wedi'u diweddaru wedi cael gwasanaeth blynyddol, a bu gwaith trwsio mân hefyd.

Cynhaliwyd gwaith addasu hefyd er mwyn helpu myfyrwyr â namau corfforol i gynorthwyo nhw i fyw bywydau annibynnol bob dydd.

## Defnyddio Gofod

Ni chwblhawyd unrhyw arolygon defnyddio gofod yn ystod 2020/21. Trafodir canlyniadau'r arolwg diwethaf isod, a gynhaliwyd yn 2019. Cynigir y dylid cynnal yr arolwg defnydd llawn nesaf yn ystod Semester Un 2022. Bryd hynny, gobeithio y bydd modd mesur dull mwy sefydlog o gyflawniad Academaidd yn dilyn effeithiau COVID-19.

### Canlyniad Arolwg Defnydd 2019


Cynhaliwyd yr arolwg yn ystod yr wythnos yn dechrau 4 Chwefror 2019. Mae wythnos yr arolwg yn digwydd yn ystod ail semester blwyddyn academaidd 2018/2019, ac ni ystyrir fod hyn yn gyfnod prysur iawn o ran defnyddio gofod. Bu i ganlyniadau'r arolwg ddangos, o'r sesiynau oedd ar gael, cyfradd amlder ystafelloedd oedd 37% ac roedd lefel feddiannaeth gyfartalog yr ystafelloedd hynny yn 40% o gyfanswm y lefelau capasiti.

# Effaith COVID 19

Drwy gydol blwyddyn academaidd 2020/21, parhaodd Ystâd y Brifysgol i dderbyn gwasanaethau er mwyn cynnal cydymffurfiaeth reoliadol a pharhau i weithredu mor agos at fusnes fel arfer â phosibl. Mae addasiadau swyddogaethol, gofodol ac o ran deunydd yn dal i fod ar waith er mwyn cefnogi gweithgarwch Diogelwch Covid y Brifysgol, a chefnogi'n llawn ffordd ddiogel o ddychwelyd at addysgu a gweithio.

Dyma enghreifftiau o addasiadau a gwelliannau parhaus:

- Mwy o Ddiheintyddion Dwylo ar waith mewn lleoliadau amrywiol ym mhob Campws
- Mae prosesau Sgrinio Lleddfu Covid 19 yn dal i fod ar waith i ddiogelu staff mewn lleoedd prysur iawn.
- Ail-drefnu dosbarthiadau presennol a mannau dysgu cymdeithasol er mwyn bodloni gofynion y canllawiau presennol.
- Cynnal defnydd a hyblygrwydd y gofod dosbarth ychwanegol at ddibenion ymarferol arbennig.
- Campfa ac offer cardiofasgwlaidd y Ganolfan Chwaraeon wedi'u haddasu yn dal i fod ar gael.
- Asesu, addasu a gwella systemau awyru naturiol a pheirianyddol
- Gwella'r gwasanaeth glanhau yn ystod y dydd er mwyn cynnal lefelau uchel o lendid a hyder ym mhob rhan o'r Ystâd.




# Ynni a Chynaliadwyedd

Mae'r Tîm Ystadau yn rheoli perfformiad ynni a chynaliadwyedd, gyda chefnogaeth y Gweithgor Gweithredu dros Gynaliadwyedd.


Yn 20/21, mae effeithiau cyfnodau clo'r pandemig a meddiannaeth is ledled y rhan fwyaf o gampysau'r Brifysgol yn cael eu hadlewyrchu mewn gostyngiad yn y defnydd o ynni a dŵr. Wrth i gampysau ddychwelyd i weithrediad arferol, mae'n debygol y byddwn yn gweld cynnydd mewn defnydd ynni a dŵr o gymharu â lefelau 20/21.

Yn 20/21, bu i'r defnydd trydan a nwy cyffredinol leihau 21% o flwyddyn i flwyddyn, gyda lleihad cronnus o ran ynni gan 36% yn is na gwaelodlin 2009/10.





| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gas | 8,461,513 | 8,310,141 | 6,823,873 | 7,811,725 | 7,165,536 | 6,700,524 | 6,996,992 | 6,970,736 | 7,531,458 | 7,134,066 | 6,924,239 |
| Electricity | 5,105,105 | 5,468,454 | 5,398,274 | 5,242,465 | 5,144,181 | 4,780,955 | 4,532,107 | 4,484,734 | 4,548,362 | 4,484,430 | 4,025,244 |
| Target | | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 | 11,531,625 |

Mae allyriadau carbon wedi lleihau'n raddol, gan wneud yn well na'r targed lleihau o 3% y flwyddyn er mwyn cyflawni lleihad o 53% mewn allyriadau ers gwaelodlin 2009/10 ac arbediad o 22% o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Brifysgol wedi bod yn prynu 100% trydan adnewyddadwy ers 2018.




| | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Water | 37 | 30 | 22 | 21 | 26 | 20 | 21 | 19 | 17 | 19 | 19 |
| Gas | 1,554 | 1,526 | 1,253 | 1,435 | 1,316 | 1,237 | 1,288 | 1,280 | 1,384 | 1,310 | 1,271 |
| Electricity | 2,258 | 2,419 | 2,388 | 2,319 | 2,276 | 2,344 | 2,078 | 1,837 | 1,587 | 1,260 | 1,029 |
| Target | | 3,734 | 3,622 | 3,513 | 3,408 | 3,305 | 3,206 | 3,110 | 3,017 | 2,926 | 2,838 |

Yn 20/21, roedd defnydd dŵr 68% yn is na gwaelodlin 2009/10, lleihad o 40% o flwyddyn i flwyddyn. Gan fod y Brifysgol wedi gwneud yn well na'r targed blaenorol ar gyfer lleihad dŵr, pennwyd targed newydd i leihau defnydd dŵr gan 10% o waelodlin 2019/20.




## Rheoli Gwastraff

Mae Glyndŵr wedi gosod targed i gynyddu canran y gwastraff a gaiff ei ailgylchu o 19% hyd at 50% yn 2023. Mae cyllid Economi Cylchol Llywodraeth Cymru wedi galluogi prynu biniau ailgylchu ledled y Brifysgol i annog pobl i ailgylchu mwy. Mae'r pandemig wedi golygu bod hyn wedi bod yn araf deg i ddechrau, ond mae ailgylchu wedi cynyddu o 19% yn 19/20 i 24% yn 20/21. Bu i gyfaint y gwastraff leihau'n gyfraneddol oherwydd y pandemig a meddiannaeth isel ar y safle.




Yn 20/21, ni anfonwyd UNRHYW wastraff i safleoedd tirlenwi - mae'r holl wastraff cyffredinol yn cael ei anfon i gael ei losgi ym Mharc Adfer, sy'n cynhyrchu digon o ynni i bweru 30,000 o dai.

Er mwyn parhau i leihau gwastraff, mae'r Brifysgol wedi parhau i gefnogi a hyrwyddo Refill.org.uk sy'n eich galluogi chi i ddod o hyd i ble gallwch chi lenwi eich poteli dŵr am ddim. Ar y cyd â'n contractwr arlwyo, rydym yn parhau i redeg cynllun ail-lenwi diodydd poeth hynod o boblogaidd, sydd wedi golygu osgoi 30,000 o gwpanau tafladwy ers dechrau'r prosiect. Yn ddiweddar, ychwanegodd Refill.org.uk Glyndŵr at eu hastudiaethau achos fel enghraifft o arfer da.
https://www.refill.org.uk/category/university-case-studies/

# Ynni a Chynaliadwyedd (parhad)

## Partneriaethau Cymunedol

Drwy gydol y pandemig mae'r tîm wedi cadw'n brysur gyda digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol gan gynnwys gweithio gyda Cadw Cymru'n Daclus ac Incredible Edible Wrecsam i blannu ardal o flodau gwyllt, ymgymryd ag aelodaeth ar y cyd o'r Ardd Gymunedol gydag Undeb y Myfyrwyr a chydweithio gydag Undeb y Myfyrwyr er mwyn eu helpu nhw i gyflawni "Ardderchog" yn y gwobrau Effaith Werdd.

Bu aelodau'r timau'n gweithio ar y prosiect Campws Addas i Ddraenogod ac roeddent yn falch o gael eu gwobr efydd ym mis Chwefror 2021.

Ymhlith y digwyddiadau yr oedd y tîm ynghlwm wrthynt oedd Digwyddiad Codi Sbwriel Mawr yn ystod y cyfnod clo, gweminarau a chynnal arolygon ar gyfer draenogod, a phrynhawn lle cafodd staff a myfyrwyr gyfle i gwrdd ag unig gi canfod draenogod y wlad.

## Cynnydd Strategaeth Cynaliadwyedd y Brifysgol

Mae Gweithgor Gweithredu dros Gynaliadwyedd (SAWG) y Brifysgol wedi parhau i weithio'n ddiflino i gyflawni ein targedau (dolen at y Strategaeth Gynaliadwyedd Amgylcheddol). Dyma ddetholiad o statws y cynllun gweithredu.

| Pwnc | Targed | Statws |
|---|---|---|
| Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy | Cymryd rhan mewn 3 x ymgyrch ymwybyddiaeth genedlaethol ar yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd bob blwyddyn | Ar waith |
| | Atgyfeirio at weithgareddau ymchwil allweddol ar y tudalennau gwe cynaliadwyedd | Ar waith |
| | Dysgu am farn staff am gyfleoedd datblygu proffesiynol ym maes datblygu cynaliadwy | Ar waith |
| | 80% o fyfyrwyr yn ystyried PGW yn brifysgol sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol | Ar waith |
| | Hyrwyddo'r campws fel labordai byw ar gyfer prosiectau myfyrwyr a gweithgareddau ymchwil | Ar waith |
| | Datblygu a chyhoeddi Strategaeth yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Brifysgol | Wedi'i gyflawni |
| Partneriaethau ac Ymgysylltu | Diweddaru a monitro'r tudalennau gwe Cynaliadwyedd | Ar waith |
| | Cefnogi'r Undeb Myfyrwyr i gyflawni Ardderchog yn y Gwobrau Effaith Werdd | Ar waith |
| | Recriwtio o leiaf 10 "Hyrwyddwr Gwyrdd" bob blwyddyn, gan gynnwys staff a myfyrwyr | Ar waith |
| | Ymgysylltu â 3 o grwpiau cymunedol bob blwyddyn ar brosiectau datblygu/mentrau/ymgyrchoedd | Ar waith |
| System Reoli Amgylcheddol | Cyflawni Draig Werdd lefel 2 erbyn 2021 | Yn mynd rhagddo |
| | Gwella ein safle yn y tablau cynghrair gwyrdd Pobl a'r Blaned | Ar waith |

| | | |
|---|---|---|
| Rheoli Carbon ac Ynni | Cwblhau, adolygu a diweddaru'r cynllun Rheoli Carbon fel bo angen yn unol â thargedau ynni/carbon newydd arfaethedig | Yn mynd rhagddo |
| | Rhoi diweddariadau rheolaidd i staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid ar leihau carbon | Yn mynd rhagddo |
| | Cyhoeddi adroddiadau chwarterol ac adroddiad blynyddol, eu cyflwyno i'r pwyllgorau perthnasol | Ar waith |
| | Lleihad o 15% mewn defnydd trydan a nwy erbyn 2020 | Wedi'i gyflawni |
| | Lleihad blynyddol o 3% mewn allyriadau carbon o gymharu â gwaelodlin 2009/10 | Wedi'i gyflawni |
| | Sgôr DEC cyfartalog o leiaf C | Ar waith |
| Rheoli Gwastraff | Lleihau'r lefelau gwaredu gwastraff gan 1% y flwyddyn (kg/ myfyriwr neu staff cyfwerth ag amser llawn) ar sail gwaelodlin 2019 | Ar waith |
| | Ailgylchu 50% o'r gwastraff erbyn diwedd 2021 | Yn mynd rhagddo |
| | Cynnal >95% o wastraff yn osgoi safle tirlenwi | Yn mynd rhagddo |
| Teithio Cynaliadwy | Cynllun teithio i'w ddatblygu erbyn 2020 | Wedi'i gyflawni |
| | Lleihau allyriadau'r cerbydau fflyd gan 75% erbyn 2025 | Yn mynd rhagddo |
| | Cynyddu'r cyfleusterau parcio beics sydd ar gael ym mhob campws | Ar waith |
| Bioamrywiaeth | Cynnal adroddiadau ecolegol ar gyfer bob safle erbyn 2019 | Wedi'i gyflawni |
| | Adolygu'r cynllun bioamrywiaeth yn flynyddol ac adrodd arno | Ar waith |
| | 3 x gweithgaredd gwirfoddoli staff/myfyrwyr yn ymwneud â gwella bioamrywiaeth bob blwyddyn | Ar waith |
| Adnoddau Naturiol | Lleihau'r defnydd dŵr gan 15% erbyn 2020 ar sail gwaelodlin 2009/10 | Ar waith |
| | Gosod is-fesuryddion dŵr yn Llaneurgain a Chanolfan Edward Llwyd erbyn 2021 | Yn mynd rhagddo |
| | 2 x ymgyrch ymwybyddiaeth dŵr i gael eu cyflawni yn ystod 17/18 | Wedi'i gyflawni |
| Adeiladu ac Adnewyddu | Pob adeilad newydd i gael achrediad Da Iawn | Yn mynd rhagddo |
| | Pob prosiect adnewyddu mawr dros £500k i gael Da (BREEAM) | Yn mynd rhagddo |
| | Darparu 10% o'r gofynion ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar gyfer pob prosiect adeiladau newydd | Yn mynd rhagddo |
| Buddsoddi Moesegol | Cydymffurfio â'r Polisi Buddsoddi Moesegol | Ar waith |
| Caffael Cynaliadwy | Adolygiad pob tair blynedd o'r Polisi Caffael Cynaliadwy | Ar waith |
| | Adolygiad pob tair blynedd o'r Polisi Buddsoddi Moesegol | Ar waith |
| | Parhau i alinio â'r statws Masnach Deg drwy gydol y Brifysgol, heb achrediad ffurfiol | Ar waith |
| | Digwyddiadau blynyddol i godi ymwybyddiaeth o Fasnach Deg | Ar waith |

2:1 award class
people & planet UNIVERSITY LEAGUE 2019

HEDGEHOG FRIENDLY CAMPUS

# Gwaith datgarboneiddio i gefnogi'r daith at sero net

Oherwydd y pandemig, prin oedd y gweithgareddau adnewyddu a gynhaliwyd yn ystod haf 2020 o ran gosod offer arbed ynni. Fodd bynnag, cynhaliwyd rhaglen adnewyddu mwy sylweddol yn ystod haf 2021 gyda rhaglen fawr o waith arbed ynni wedi'i hariannu gan HEFCW. Bydd gostyngiadau ynni o'r prosiectau datgarboneiddio yn cael eu gwireddu yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22.

Dyma grynodeb o'r prosiectau hyn.

## Prosiect Ffotofoltaig y Ganolfan Optig

Gosodwyd arae ffotofoltaig newydd yn y Ganolfan Optig, gyda gwrthdroyddion newydd, paneli rheoli ac uned syncroneiddio grid G99. Disgwylir i'r system gynhyrchu 78,000KWh o drydan a lleihau 21,000Kg o C02 y flwyddyn.






## Gosod Mannau Gwefru Cerbydau Trydan

Cafodd 15 o fannau gwefru cerbydau trydan eu gosod ym Mhlas Coch a Champws Llaneurgain gan gynnwys mannau parcio penodol wedi'u paentio â logo cherbydau trydan. Nod y mannau gwefru yw cael eu defnyddio gan fyfyrwyr, staff, ymwelwyr a cherbydau'r Brifysgol. Mae'r mannau gwefru yn ddyfeisiau clyfar gyda modem sy'n hwyluso'r broses o fabwysiadu cerbydau trydan yn ehangach. Maent hefyd yn rheoli defnydd ac yn cynhyrchu data defnydd.







## Prynu saith Cerbyd Trydan llawn

Cafodd saith o gerbydau trydan llawn eu prynu ac maent ar waith. Caiff y rhain eu gwefru gan ddefnyddio mannau gwefru cerbydau trydan sydd wedi'u gosod ledled y campws. Mae'r fflyd yn drydan i gyd oherwydd y prosiect hwn. Caiff y bysus mini eu defnyddio yn bennaf er mwyn cludo myfyrwyr. Credwn y bydd oddeutu 20,000kgs o C02 y flwyddyn yn cael ei leihau ar draws y fflyd.




## Ôl-ffitio'r Rhaglen Goleuadau LED

Mae goleuadau LED wedi cael eu prynu a'u gosod mewn llawer o leoliadau ar draws y campws. Mae'r rhain yn cynnwys y neuadd chwaraeon, coridorau, ystafelloedd addysgu, mannau cymdeithasol, mannau gweithio ystwyth, labordai mhetroleg, gweithdai. Maent wedi gwella'r lefelau goleuadau, ac rydym wedi cyfrifo y byddant yn arbed 70% o'r ynni o gymharu â'r bylbiau maent wedi'u disodli. Rydym yn rhagweld y byddwn yn lleihau oddeutu 49,000 Kgs o C02 y flwyddyn, a bydd llai o waith cynnal a chadw i ddisodli bylbiau goleuadau.






# Meincnodi Data Ystadau

Er mwyn meincnodi perfformiad yr Ystadau, rydym wedi dewis ein cystadleuwyr amlwg ar UCAS. Ymhlith y rhain mae: Prifysgol Bangor, Prifysgol Caer, Prifysgol Lerpwl John Moores, Prifysgol Fetropolitan Manceinion, Prifysgol Swydd Stafford a Phrifysgol De Cymru.


### Meincnod 1

Mae costau ynni presennol y Brifysgol o fewn canolrif y grŵp cyfoedion ac fel y'i trafodwyd yn y rhan ynni a chynaliadwyedd, fel Prifysgol rydym wedi ymrwymo i leihau defnydd ynni o flwyddyn i flwyddyn, gan barhau i leihau ein hôl-troed carbon.



## Meincnod 2

Canran yr ystâd sy'n dod o dan gyflwr A a B (GIA, nid yw'n breswyl). Ar lefel ychydig yn uwch na 30%, mae cyflwr Ystadau'r Brifysgol yn parhau i fod ymysg chwartel isaf y grŵp cyfoedion. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi fod buddsoddiad sylweddol parhaus dan Strategaeth Ystadau Campws 2025 wedi mynd rhagddo, sydd wedi golygu bod cyflwr yr asedau'n gwella o flwyddyn i flwyddyn.




# Meincnodi Data Ystadau (parhad)

## Meincnod 3


Mae costau cynnal a chadw'r Brifysgol ymysg y lleiaf yn y grŵp cyfoedion. Byddai'r mesur hwn yn cael ei groesawu gan lawer o Brifysgol, yn enwedig y rhai sydd â rhan fwyaf o'u stoc yn dod o dan gyflwr A a B fel y'i nodwyd ym Meincnod 2.

Fodd bynnag, i PGW y mae rhan fwyaf ei stoc adeiladau yn dod o dan lefel cyflwr C yn dilyn blynyddoedd o danfuddsoddi, mae hyn yn dangos fod angen gwelliant parhaus i'r Ystâd i wella ei pherfformiad cyffredinol.




## Meincnod 4

Mae'r graff isod yn nodi fod y Brifysgol ychydig yn uwch na chyfartaledd y grŵp cyfoedion o ran ei allbwn gwastraff fesul FTE. Fodd bynnag, mae'n bwysig ategu er ein bod yn ceisio rhoi gwelliannau ar waith o flwyddyn i flwyddyn, gall y flwyddyn amrywio yn dibynnu ar allbynnau gweithgareddau a chymarebau. Mae 100% o'r gwastraff a gynhyrchir gan ein busnes gweithredol cyffredinol yn cael ei wyro o'r safle tirlenwi.



# Ein Campysau



# Edrych ymlaen at 21/22

Wrth inni symud i flwyddyn Academaidd newydd 21/22, byddwn yn blaenoriaethu'r hyn a ganlyn:-

- Datblygu map ffordd Sero Net, gan adeiladu ar ein llwyddiannau datgarboneiddio diweddar ac amlinellu'r prif feysydd gweithredu â blaenoriaeth a'r cerrig milltir a fydd eu hangen er mwyn i PGW gyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030.

- Cwblhau'r gwerthiant tir terfynol er mwyn cynhyrchu rhagor o dderbynebau cyfalaf.

- Adnewyddu'n llawn y Labordai yng Nghoridor C gan ddefnyddio Cyllid Cyfalaf HEFCW.

- Cefnogi'r Byrddau Prosiect Cyfalaf Mawr sydd wedi cael eu pennu er mwyn bwrw ymlaen â Campws 2025

- Parhau i adeiladu perthnasoedd positif â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod gan ein myfyrwyr, staff ac ymwelwyr y cyfleusterau a'r amgylchedd dysgu gorau posibl.









PRIFYSGOL glyndŵr Wrecsam | Wrexham glyndŵr UNIVERSITY

PRIFYSGOL glyndŵr Wrecsam | Wrexham glyndŵr UNIVERSITY